



**UMPA**  
**Cyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**  
**25 Medi 2015**  
**Ystafell Gyfarfod Brynamlwg**

---

**Presennol:**

Lewis Donnelly (LD)	- Llywydd UMPA, Cadeirydd ac Ymddiriedolwr
Hanna Medi Merrigan (HMM)	- Materion Cymreig, Llywydd UMCA ac Ymddiriedolwr
Ieuan Gregory (IG)	- Swyddog Lles Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Kelly Keat (KK)	- Swyddog Gweithgareddau Myfyrwyr UMPA ac Ymddiriedolwr
Lauren Marks (LM)	- Swyddog Addysg UMPA ac Ymddiriedolwr
Sam Bache (SB)	- Ymddiriedolwr Israddedig UMPA

**Skype:**

Peter Curran (PC)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA
-------------------	------------------------------

**Yn gwasanaethu:**

Sue Parnell (SP)	- Ymddiriedolwr Allanol UMPA (fel sylwedydd yn unig)
Annamarie Evans (AE)	- Cynorthwydd Gweithredol i Fwrdd UMPA
John Glasby (JG)	- Prif Weithredwr UMPA (i egluro materion yn unig)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Estelle Hart – Ymddiriedolwr Allanol UMPA

**2. Datganiadau o Fuddiannau**

Yng ngoleuni ei rôl newydd fel Rheolwr Masnachol yn y Brifysgol, nododd JG fod ganddo fuddiannau parthed Adolygiad Greenhouse, argymhelliad allweddol 24.2

Nododd AE fod ganddi fuddiannau yn Adolygiad Greenhouse, argymhelliad allweddol 24.8

**3. Busnes y Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan LD; gan mai dyma oedd cyfarfod cyntaf y Tîm Swyddogion newydd, byddai'n syniad i bawb gyflwyno eu hunain.

Hysbysodd LD y Bwrdd bod ein Hymddiriedolwr Ôl-raddedig, Shaun Bailey, wedi gadael ei astudiaethau ac ni fydd bellach yn aelod o'r Bwrdd fel Ymddiriedolwr.

**Nodwyd**

Esboniodd LD hefyd bod cofnodion o'r cyfarfod diwethaf eisoes wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd a'r Swyddogion Ymddiriedolwyr blaenorol.

**Nodwyd**

Atgoffodd LD y Bwrdd ynglŷn â phwysigrwydd cyfrinachedd, ac i helpu yn hyn o beth, gofynnwyd bod Adolygiad Greenhouse yn cael ei drosglwyddo'n ôl i AE ar ddiwedd y cyfarfod.

**Nodwyd**

#### 4. Y Diweddaraf ar Recriwtio Prif Weithredwr

Hysbysodd LD y Bwrdd bod y Tîm Swyddogion wedi bod mewn trafodaethau â Kat Sullivan, Rheolwr Cymorth Strategol UCM, a'r cyngor a gafwyd oedd y dylem drafod y mater â dau Brif Weithredwr dros-dro posib. Cyfarfu'r Tîm Swyddogion â Daryl Ormerod, Prif Weithredwr UM Cumbria, a Helen West, Ymgynghorydd Annibynnol ar gyfer Prif Weithredwyr dros-dro.

Yn dilyn trafodaethau ag UCM, cynigiodd y Cadeirydd benodi Daryl Ormerod yn Brif Weithredwr dros-dro, gyda chefnogaeth Dan Francis, Ymgynghorydd Datblygiad UCM. Byddai'r swydd yn para rhwng 3 a 6 mis, gan ddibynnu ar gynnydd y broses benodi ar gyfer Prif Weithredwr llawn amser, a'r bwriad fyddai i'r swydd ddechrau ar ddydd Mercher 7 Hydref. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd bleidleisio ar hyn.

**Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol ar hyn**

#### 5. Adolygiad Ymgynghorol Greenhouse

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adolygiad a gynigiwyd o'r blaen ar gyfer ystyriaeth, a gofynnodd i'r Bwrdd fwrw golwg dros yr argymhellion allweddol a phleidleisio'n briodol.

24.1 *Gan ystyried canfyddiadau'r adroddiad, byddai parhau â'r Cynllun Strategol presennol yn wrthgynhyrchiol; argymhellir felly bod datblygu Cynllun Strategol newydd yn fater o flaenoriaeth i'r mudiad ar gyfer 2016.*

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o gydweithredu ag UM Bangor, gan eu bod nhw wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda ni ar ddatblygu eu cynllun strategol. Cytunwyd y gellir ystyried yr opsiwn hwn cyn belled a bod mwy o eglurhad i'w gael.

**Gweithredu – Daryl Ormerod/Prif Weithredwr dros-dro (DO)**

[REDACTED]

[REDACTED]

Gadawodd JG yr ystafell.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd bleidleisio ar ystyried yr opsiwn o gael cwmni allanol i redeg ein gweithgareddau masnachol.

**Cytunwyd yn unfrydol - Gweithredu - DO**

[REDACTED]

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd bleidleisio ar hyn; ydyn nhw'n fodlon ystyried yr opsiwn o drosglwyddo Bwyd/Coffi/Adwerthu i'r Brifysgol?

**Cytunwyd yn unfrydol - Gweithredu - DO**

24.3 *Er mwyn tawelu ofnau ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau masnachol o fewn yr adeilad, cyflogi a datblygu staff myfyrwyr, a diffyg dylanwad, argymhellir sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth a Bwrdd Goruchwyllo Partneriaeth Gwasanaeth neu gorff cyffelyb, fyddai'n caniatáu adolygu perfformiad a mewnbwn undeb y myfyrwyr at y gwasanaethau hyn.*

**Cytunwyd yn unfrydol gan y Bwrdd - Gweithredu - DO**

24.4 *Argymhellir y dylid penodi Prif Weithredwr llawn amser i arwain datblygiad y mudiad.*

**Cytunwyd yn unfrydol gan y Bwrdd - Gweithredu - DO/Tîm Swyddogion**

24.5 *Argymhellir creu dwy rôl reolaeth newydd i ddisodli swydd Rheolwr Gwasanaethau'r Aelodaeth. Byddai un o'r rolau hyn yn ymdrin â'r meysydd presennol canlynol - Cynrychiolaeth, Addysg, Ymgyrchoedd, Democratiaeth a Chyngor, a theitl y swydd fyddai Rheolwr Ymgysylltiad a Chymorth Myfyrwyr. Byddai'r rôl reolaeth arall yn ymdrin â'r meysydd canlynol - Chwaraeon, Cymdeithasau a gwirfoddoli, a theitl y swydd fyddai Rheolwr Gweithgareddau Myfyrwyr.*

*Cynhaliwyd trafodaeth ddwys, ond teimlai'r Bwrdd yn gyffredinol y dylid gohirio'r opsiwn hwn hyd nes bydd y Prif Weithredwr dros-dro yn y swydd, fel y gall gynnig cyngor/arweiniad.*

**Gweithredu - DO**

[REDACTED]

24.7 *O gofio maint y mudiad, a'r nifer cyfyngedig o staff, os caiff argymhellion yr adroddiad hwn eu derbyn, byddai cost person Adnoddau Dynol mewnl yn rhy ddrud, ac ni fyddai trefniant o'r fath yn cynnig gwerth am arian. O'r herwydd, dylid ystyried trefnu Adnoddau Dynol, strategol a gweithredol, drwy gontract allanol.*

*Cytunodd y Bwrdd i ohirio hyn hyd nes gall y Prif Weithredwr dros-dro newydd gynnig mewnbwn.*

**Cytunwyd yn unfrydol - Gweithredu - DO**

24.8 Yn unol â'r cynigion eraill, argymhellir y dylid ystyried datblygu Desg Groeso. Mae'r argymhellion hyn wedi'u cynllunio i adlewyrchu diben y mudiad yn well o fewn cyd-destun datblygu strategaeth newydd, gan bwysleisio'r angen i UMABer dyfu ymgysylltiad, gweithgareddau a chymorth myfyrwyr ar draws amrywiaeth o wasanaethau.

Yn dilyn y ffaith i AE ddatgan buddiannau ynghynt, gofynnodd y Cadeirydd iddi adael yr ystafell. Bu rhaid i PC roi terfyn ar ei gyfranogiad yn y cyfarfod, a mynegodd y byddai'n dibynnu ar arbenigedd yr ymddiriedolwyr oedd ar ôl yn y maes hwn.

Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â'r argymhelliad uchod; gofynnodd HM a SP am eglurhad pellach o ddisgrifiad swydd AE yng nghyd-destun ailfrandio'r Tîm Croeso.

**Gweithredu - DO**

Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd drafod opsiynau posib y gall y Ddesg Groeso ymgymryd â nhw hyd nes gellir gwneud penderfyniad terfynol ar yr argymhelliad.

**Gweithredu - LD**

Cytunwyd y dylid gohirio'r argymhelliad o gymeradwyo'r buddsoddiad hyd nes ceir penderfyniad ar argymhelliad 24.6

**Cyfredol**

Daeth AE yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

## **6. Unrhyw fusnes arall**

Dim

## **7. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf:**

Cytunwyd y byddai'r Bwrdd yn fodlon parhau i gyfarfod bob dau fis. Caiff unrhyw ddiweddariadau angenrheidiol eu hanfon drwy e-bost.

Bydd AE yn cysylltu â'r Bwrdd Llawn gyda dyddiadau posib ar gyfer cyfarfodydd.